# Uwch Arholwr,
# TGAU (CBAC) Hanes Uned 3
## Proffil y Rôl a Ffurflen Gais

## PROFFIL Y RÔL

**Diben:**
Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gyfrifol am asesu TGAU (CBAC) Hanes Uned 3. Cyfrifoldeb Uwch Arholwr yw gosod y papurau cwestiynau a'r cynlluniau marcio a sicrhau safoni'r marcio.

**Cyfrifoldebau:**

- gosod cwestiynau a chynlluniau marcio'r papur cwestiynau
- mynychu cyfarfod y Pwyllgor Gwerthuso Papurau Cwestiynau
- monitro safonau marcio holl arholwyr y papur, gan gynnwys, lle bo angen, unrhyw arholwyr cynorthwyol ac arweinwyr tîm, a gweithredu'n briodol i sicrhau cywirdeb a chysondeb
- cynghori ar benodi, hyfforddi ac ailbenodi arweinwyr tîm ac arholwyr ar gyfer y papurau cwestiynau, lle bo angen gwneud hynny
- mynychu'r cyfarfod dyfarnu, cynghori aelodau ynghylch gweithrediad y papur cwestiynau ac argymell ystodau rhagarweiniol y marciau ar gyfer ffiniau graddau yn ôl barn i'r papur cwestiynau
- cyflwyno adroddiad gwerthuso ar berfformiad y papur cwestiynau/tasgau
- bod ar gael i ymgymryd â marcio adolygol ym mhob sesiwn yn ôl gofynion CBAC yn ymwneud ag Ymholiadau am Ganlyniadau yn ystod y cyfnodau perthnasol

Mae angen i Uwch Arholwyr fod ar gael am gyfnod o oddeutu wyth diwrnod y flwyddyn. Gall y cyfnod hwn gynnwys dyddiau yn ystod y tymor, ar benwythnosau ac yn ystod y gwyliau. Mae tâl rhyddhau ar gael i ganolfannau. Bydd hyn yn galluogi i ddeiliad y swydd fynychu PGPC (deuddydd), safoni arweinwyr tîm ar gyfer y papur arholiad ym mis Mehefin (un diwrnod), a mynychu'r gynhadledd arholwyr (un diwrnod) a'r gynhadledd ddyfarnu ym mis Gorffennaf (deuddydd).

**Profiad/cymwysterau angenrheidiol**

- gradd yn y pwnc sy'n benodol i'r cymhwyster hwn neu bwnc cysylltiol
- profiad asesu ac addysgu perthnasol
- profiad rheoli pobl
- y gallu i weithio'n dda o dan bwysau

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â paula.morgan@wjec.co.uk

Dyddiad cau cyflwyno ceisiadau yw **5 Awst 2024**.

**Sut i ymgeisio:**

Os ydych chi'n dymuno gwneud cais am y swydd, ac **nad ydych yn gweithio i CBAC ar hyn o bryd**, ewch i https://appointees.wjec.co.uk a chlicio 'Gwneud Cais i fod yn Arholwr' i lenwi'r ffurflen gais.

**Os ydych chi'n gweithio i CBAC ar hyn o bryd**, mewngofnodwch i'ch cyfrif Porth Rheoli Penodiadau (gan ddefnyddio eich enw defnyddiwr newydd) a chliciwch ar yr eicon 'Fy Nghais' ar yr hafan. Gwnewch yn siŵr eich bod yn ychwanegu rôl **Uwch Arholwr** ar gyfer **TAGU (CBAC) Hanes Uned 3** ar y tab 'maes pwnc', a llenwch feysydd eraill y cais.

Os oes angen unrhyw gymorth pellach arnoch wrth lenwi'r ffurflen gais, cysylltwch â:-


| | | |
|---|---|---|
| Rob Reynolds<br>rob.reynolds@wjec.co.uk<br>02920 265 050 | neu | Emily Safadi<br>emily.safadi@wjec.co.uk<br>02920 265 305 |